# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# CANLLAWIAU I AELODAU'R CYNULLIAD

# AR GOFRESTRU, DATGAN

# A CHOFNODI BUDDIANNAU ARIANNOL A

# BUDDIANNAU ERAILL AELODAU

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| ADRAN 1 | CYFLWYNIAD A'R FFRAMWAITH STATUDOL |
| ADRAN 2 | COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU (RhS 2.1-2.5) A CHOFRESTRU AELODAETH O GYMDEITHASAU (RhS 5)<br><br>- Y Gofrestr<br>- Aelodaeth o Gymdeithasau<br>- Cofrestru a chofnodi – y Wedd Ymarferol<br>- Datgan Buddiannau Aelodau<br>- Datgan – y Wedd Ymarferol |
| ADRAN 3 | LOBÏO I SICRHAU GWOBR NEU YSTYRIAETH – RhS 2.8 |
| ADRAN 4 | PLEIDLEISIO – RhS 2.9 |
| ADRAN 5 | CYTUNDEBAU AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU – RhS 2.12 |
| ADRAN 6 | METHIANT I GYDYMFFURFIO RhS 2.10 & 2.11, RhS 22.1(i), ADRAN 36(7)<br><br>- Peidio â chydymffurfio<br>- Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a restrir yn RhS 22<br>- Trefn Gwyno'r Cynulliad |
| ATODIAD A | CATEGORÏAU BUDDIANNAU Y DYLID EU COFRESTRU/DATGAN |
| ATODIAD B | COFRESTRU AELODAETH O GYMDEITHASAU YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 5 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD A'R FFRAMWAITH STATUDOL

1.1 Cymeradwywyd y canllawiau hyn gan y Cynulliad ar 10 Mai 2006. Mae'n disodli'n gyfan gwbl y ddogfen wreiddiol "Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau" a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 19 Ebrill 2005.

1.2 Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni'r dyletswyddau a roddir arnynt gan adran 36 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"), rheol sefydlog 2 a rheol sefydlog 5 y Cynulliad a phenderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999 mewn perthynas â buddiannau anuniongyrchol. Nid ydynt fodd bynnag yn cymryd lle'r Ddeddf, rheol sefydlog 2, rheol sefydlog 5 na phenderfyniad y Cynulliad, y mae'n rhaid i Aelodau gydymffurfio â hwy wrth gofrestru eu buddiannau yn y lle cyntaf a'u hadolygu wedyn a'u datgan. Mae'r cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at drafodion y Cynulliad yn cynnwys cyfeiriadau at drafodion ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau.

1.3 Mae Adran 36(7)(a) Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd, a allai ddenu dirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, os bydd Aelod yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad heb fod wedi cydymffurfio â, neu yn groes i, y Ddeddf a'r rheolau sefydlog ar gofrestru a datgan buddiannau, pleidleisio a lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth.

1.4 Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r dyletswyddau a roddir arnynt yn gorffwys yn llwyr ar yr Aelodau, er y gallant geisio cyngor y Llywydd, y Clerc neu aelodau o'i staff.

1.5 Prif elfennau rheol sefydlog 2 y Cynulliad yw:

- RhS 2.1 – cofrestru buddiannau mewn cofrestr sy'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd a chyflwyno copïau o gytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau;
- RhS 2.6 – datgan buddiannau perthnasol cyn i Aelod gymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad;
- RhS 2.8 – gwaharddiad ar lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad;
- RhS 2.9 – gwaharddiad ar bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru neu ei ddatgan lle bo'r penderfyniad yn debygol o arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod sy'n fwy na'r fantais a ddaw i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol;
- RhS 2.10 – posibilrwydd o wahardd Aelodau a thynnu hawliau'n ôl, i'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau sefydlog (yn ogystal â phennu sancsiynau troseddol);
- RhS 2.12 – gofynion yn ymwneud â ffurf cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n golygu darparu gwasanaethau yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod o'r Cynulliad.

Edrychir yn fanwl ar y darpariaethau hyn yn Adrannau 2 a 4-7 y canllawiau hyn.

1.6 Mae'r Atodiad at reol sefydlog 2 yn pennu y gall y Cynulliad bennu drwy benderfyniad, ddiffiniadau, terfynau neu werthoedd mewn perthynas â'r categorïau buddiannau a nodir yn yr Atodiad. Cafodd y rhain eu pennu mewn penderfyniad gan y Cynulliad ar 19 Mai 1999.

1.7 Mae Rheol Sefydlog 5 yn delio â'r gofynion ar Aelodau i gofrestru aelodaeth o glybiau neu gymdeithasau preifat.

1.8 Nid yw'r sancsiynau cyfreithiol yn Adran 5 Deddf Llywodraeth Cymru yn berthnasol i Reol Sefydlog 32. Fodd bynnag, gallai methu â chofrestru aelodaeth o glwb/gymdeithas berthnasol arwain at ymchwiliad gan y Pwyllgor sy'n gyfrifol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i). Gall y Pwyllgor argymell cymryd camau os yw'n canfod nad yw Aelod wedi cydymffurfio â Rheol Sefydlog 5.

## ADRAN 2 – COFRESTRU BUDDIANNAU (RhS 2.1 & 2.2) A CHOFRESTRU AELODAETH O GYMDEITHASAU (RhS 5)

### Y Gofrestr

2.1 O dan adran 36(1) y Ddeddf mae'n ofynnol cael cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad gofrestru buddiannau o'r fath (fel y'u diffinnir yn y rheolau sefydlog) yn y gofrestr honno. Rhestrir manylion buddiannau yn rheol sefydlog 2 ac yn Atodiad y rheolau sefydlog. Y polisi y tu ôl i'r gofyniad am gofrestr yw rhoi gwybod ar sail barhaus i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd am y buddiannau ariannol hynny a buddiannau eraill y gellid tybio eu bod yn dylanwadu ar eu hymddygiad neu weithredoedd yn y Cynulliad. Mae'r Atodiad at y rheolau sefydlog yn pennu'r categorïau o fuddiannau y mae'n **rhaid** eu cofrestru. Nid darpariaethau dewisol na gwirfoddol mohonynt. Mae cymryd rhan mewn trafodion, heb gofrestru'r buddiannau a bennir yn yr atodiad, yn drosedd o dan Adran 36(6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru. Nid yw canllawiau ac unrhyw gyngor a roddir gan y Llywydd a/neu ei Swyddfa yn ddehongliad awdurdodol o'r gofynion sy'n deillio o'r Ddeddf a'r rheolau sefydlog. Mae'r dehongliad cyfreithiol yn gorffwys yn derfynol gyda'r Llysoedd. Oherwydd y gofyn yn rheol sefydlog 2.4 i roi gwybod am fuddiannau newydd neu newid yn y buddiannau ymhen 4 wythnos wedi newid/cael y buddiant, cynghorir Aelodau i adolygu'u buddiannau'n rheolaidd.

2.2 Efallai y bydd rhai Aelodau yn penderfynu mabwysiadu arfer o gofrestru buddiannau nad oes gorfodaeth arnynt i'w cofrestru, e.e. lletygarwch y mae ei werth yn is na'r trothwy o 0.5% o gyflogau Aelodau neu fuddiannau teulu agos yr Aelod heblaw partner neu blant dibynnol. Nid oes dim i rwystro hyn, er y gallai arwain at lunio cymariaethau anffafriol rhwng y rheini sy'n cyflawni gofynion y Ddeddf a'r rheolau sefydlog yn briodol a'r rheini sy'n dewis rhagori arnynt.

### Aelodaeth o Gymdeithasau

2.3 Yn unol â chyngor y Pwyllgor sy'n gyfrifol am safonau ymddygiad, cyflwynwyd y Gofrestr Aelodaeth o Gymdeithasau wedi i'r Cynulliad gymeradwyo Rheol Sefydlog 5 ar 19 Ebrill 2005. Mae Rheol Sefydlog 5 yn disodli'r amod yn Rheol Sefydlog 2 a oedd yn mynnu bod Aelodau'n cofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Cyhoeddir y gofrestr yn yr un ddogfen â'r Gofrestr Buddiannau.

2.4 Yn ei hanfod, mae'r polisi'n adlewyrchu darpariaethau Rheol Sefydlog 2, h.y. sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad â'r cyhoedd yn gyson ymwybodol o aelodaeth o unrhyw glybiau neu gymdeithasau preifat y gellid tybio eu bod yn dylanwadu ar ymddygiad neu weithredoedd Aelodau yn y Cynulliad.

2.5 Mae darpariaethau Rheol Sefydlog 5 wedi'u modelu ar y rheini yn Rheol Sefydlog 2 fel bod, er enghraifft, yr amserlenni ar gyfer datgan buddiannau

perthnasol yn union yr un fath. Fel Rheol Sefydlog 2, mae'n rhaid i aelodau gydymffurfio â'r darpariaethau a bydd y rhan fwyaf o'r canllawiau ar Reol Sefydlog 4 hefyd yn berthnasol i Reol Sefydlog 5. Y gwahaniaeth pennaf rhwng Rheol Sefydlog 5 a Rheol Sefydlog 2 yw nad yw'r sancsiynau cyfreithiol yn Adran 36 Deddf Llywodraeth Cymru yn berthnasol i Reol Sefydlog 5.

2.6 Gan fod Rheol Sefydlog 5.6 yn mynnu bod Aelodau'n cofrestru unrhyw fuddiannau newydd neu newidiadau i fuddiannau cyn pen **pedair** wythnos i bob newid ddigwydd, argymhellir bod Aelodau'n adolygu aelodaeth o glybiau/cymdeithasau'n rheolaidd. Ceir enghreifftiau o'r math o glybiau/cymdeithasau y mae gofyn eu cofrestru, a'r rheini nad oes gofyn eu cofrestru, yn Atodiad B.

**Cofrestru – y wedd ymarferol – RhS 2.3, 2.4, 5.5 & 5.6**

2.7 Yn ôl rheolau sefydlog 2.3 a 5.5 mae'n rhaid i Aelodau lenwi ffurflen gofrestru a chofnodi a'i chyflwyno i'r Llywydd cyn pen **wyth** wythnos i dyngu'r llw neu roi'r cadarnhad cyfatebol. Cyfrifoldeb yr Aelodau wedyn, o dan reolau sefydlog 2.4 a 5.6, yw rhoi gwybod am newidiadau yn eu buddiannau cofrestradwy a chofnodedig cyn pen **pedair** wythnos i bob newid ddigwydd.

2.8 Mae cynnwys y Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Rhoddir copi wedi'i ddiweddaru ar safle'r Cynulliad ar y we bob chwarter a gellir archwilio copi yn adeilad y Cynulliad (drwy'r Swyddfa Gyflwyno) neu drwy'r Fewnrwyd (Ardal yr Aelodau/Manylion Aelodau/Buddiannau).

**Datgan buddiannau Aelodau – RhS 2.6**

2.9 Mae'r rheol sefydlog sy'n ymwneud â datgan buddiant yn ehangach ei chwmpas na'r rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau. Yn ogystal â buddiannau cyfredol (h.y. y rheini yn y Gofrestr gyfredol neu fuddiannau a gaffaelwyd dros y pedair wythnos flaenorol), mae gofyn i Aelodau ddatgan y buddiannau a restrir yn Atodiad rheol sefydlog 2 y *maent efallai yn disgwyl* eu cael cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad os yw'r buddiant mewn unrhyw fater y mae a wnelo'r trafodion ag ef. Y prif bolisi y tu ôl i'r gofyniad i ddatgan diddordeb yw sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw fuddiant ariannol neu fuddiant arall y gellid yn rhesymol tybio ei fod yn berthnasol i'r trafodion y mae'r Aelod am siarad ynddynt.

2.10 Mae cymryd rhan mewn trafodion heb ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol **cyfredol** sydd gan Aelod, fel y'u pennwyd yn yr atodiad i Reol Sefydlog 2, yn drosedd o dan adran 36(7)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Nid yw methiant i ddatgan buddiant i'r **dyfodol** yn dramgwydd troseddol o dan y Ddeddf ond gallai fod yn destun cwyn i'r Pwyllgor sy'n gyfrifol o dan Reol Sefydlog 22.1(i).

2.11 Gall buddiannau a ddisgwylir i'r dyfodol fod yn fwy sylweddol na buddiannau cyfredol ac mae didwylledd yn hanfodol. Lle bo Aelod, er enghraifft, yn trafod is-ddeddfwriaeth neu'n gwneud sylwadau ar fater y gall yr Aelod yn rhesymol ddisgwyl mantais ariannol bersonol ohono o'r math a bennir yn yr Atodiad at RhS 2, rhaid gwneud datganiad. Wrth benderfynu a yw buddiant posibl i'r dyfodol yn ddigon pendant fel bod angen ei ddatgan, y gair allweddol yn y rheol y mae'n rhaid i'r Aelod ei chadw mewn cof yw "disgwyl". Lle bo cynlluniau neu faint ymwneud Aelod mewn prosiect wedi mynd y tu hwnt i obeithion neu ddyheadau

amwys ac wedi cyrraedd y cam lle mae yna ddisgwyliad rhesymol y ceir buddiant cofrestradwy, yna dylid gwneud datganiad yn egluro'r sefyllfa. Lle bo'r buddiant y cyfryw fel bod rhaid ei ddatgan cyn siarad, dylai Aelodau sicrhau hefyd eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau ar bleidleisio (rheol sefydlog 2.9).

2.12 Nid yw cymryd rhan mewn trafodion heb ddatgan aelodaeth o gymdeithas gofrestredig yn drosedd o dan adran 36 Deddf Llywodraeth Cymru ac nid yw'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

**Datganiadau y wedd ymarferol**

2.13 I'r diben o wneud datganiadau, mae trafodion, yn ogystal â dadleuon yng nghyfarfodydd llawn y Cynulliad, yn cynnwys dadleuon mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau a chyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau lle gwrandewir ar dystiolaeth. Dylid datgan buddiant os yw oddi mewn i gategori a bennir yn yr atodiad at reol sefydlog 2 ac os yw mewn unrhyw fater y mae'r a wnelo'r trafodion ag ef. Cyfrifoldeb yr Aelod yw barnu a yw buddiant yn ddigon perthnasol i drafodiad neilltuol fel bod yn rhaid ei ddatgan.

2.14 Yn ôl RhS 2.6 rhaid gwneud y datganiad yn llafar ac oherwydd darpariaethau adran 36(3) y Ddeddf, dylid yn ôl pob golwg gwneud datganiad ar bob achlysur y trafodir mater. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol bob tro y maent yn cymryd rhan mewn trafodion yn y Cynulliad h.y.

- *Mewn cyfarfod llawn* – cyn i aelod siarad am y tro cyntaf ar bob eitem ar yr agenda ond nid bob tro y mae'n siarad wedyn yn ystod eitem benodol o fusnes.
- *Mewn Pwyllgor* – ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor.

2.15 Cyhyd â bo'r manylion (gan gynnwys unrhyw symiau perthnasol) yn y Gofrestr Buddiannau nid oes raid i'r Aelod ond cyfeirio at y buddiannau a'r ffaith bod y buddiannau i'w gweld yn y Gofrestr. Os yw'r datganiad yn ymwneud â buddiannau un ai nad ydynt yn y Gofrestr eto neu eu bod yn rhai y mae'r Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blant dibynnol yr Aelod, yn disgwyl eu cael yn y dyfodol, yna bydd gofyn rhoi'r manylion llawn (gan gynnwys unrhyw symiau perthnasol) yn y datganiad.

2.16 Dylai'r datganiad roi digon o wybodaeth i alluogi'r gwrandäwr i ddeall natur y buddiant sy'n cael ei ddatgan; nid yw'n ddigon dweud "Mae gennyf fuddiant yn y mater o dan drafodaeth". Rhaid i'r datganiad nodi'r math o fuddiant dan sylw. Er enghraifft "Rwyf yn ffermwr gyda buddiannau mewn tir neu anifeiliaid y byddai'r cynllun yn effeithio arnynt" neu "Rwyf yn berchen ty yn yr ardal yr effeithir arni gan y cynllun sy'n cael ei ystyried" neu "Rwyf yn aelod o fwrdd un o'r cyrff y byddai'r penderfyniad hwn yn effeithio arnynt". Os oes gan aelod fwy nag un buddiant rhaid datgan pob un, e.e. "Rwyf yn ffermwr a byddai'r cynllun yn effeithio ar fy nhir ac yr wyf hefyd yn berchen ty y mae fy rhieni'n byw ynddo y byddai'r cynllun yn effeithio arno".

2.17 Er nad oes unrhyw ffurf arbennig o eiriau yn ofynnol, cyhyd â bo'r datganiad yn glir, efallai y byddai o fudd i'r Aelodau fodelu eu datganiad ar yr isod:

> "Gadeirydd (*neu Mr. Llywydd, fel y bo'n berthnasol*). Hoffwn ddatgan diddordeb yn y mater sy'n cael ei drafod. Rwyf yn ffermwr a byddai'r cynllun yn effeithio ar fy nhir (*neu fel sy'n berthnasol*). Mae'r manylion wedi'u cofnodi yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau."

2.18 Fodd bynnag, mae'r prif gyfrifoldeb am benderfynu pa un y dylid gwneud datganiad yn gorffwys gyda'r Aelod unigol.

## ADRAN 3 –LOBÏO I SICRHAU GWOBR NEU YSTYRIAETH – RhS 31.7

Ymwneud yr Aelod

3.1 Mae Deddf Llywodraeth Cymru a rheol sefydlog 2.8 yn gwahardd lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth. Ni chaiff unrhyw Aelod gymryd tâl am eiriol na chychwyn unrhyw achos neu fater yn y Cynulliad ar ran unrhyw gorff nac unigolyn. Mae hyn yn golygu na chaiff Aelod, yn gyfnewid am dâl neu elw mewn da, eiriol na chychwyn unrhyw achos neu fater drwy siarad mewn trafodion, pleidleisio, cyflwyno cwestiwn llafar neu ysgrifenedig, cyflwyno cynnig, cyflwyno neu gynnig gwelliant i gynnig neu is-ddeddfwriaeth, cyflwyno neu lofnodi datganiad barn ysgrifenedig, nac annog cyd-Aelod i wneud hynny. Dylai Aelodau nodi bod y gwaharddiad yn sefyll hefyd lle bo'r taliad neu'r elw yn un a dderbynnir gan briod yr Aelod neu y disgwylir i'r priod ei dderbyn gyda gwybodaeth yr Aelod.

3.2 Nid yw'r rheol sefydlog yn atal Aelod rhag dal buddiant allanol gyda thâl fel cyfarwyddwr, ymgynghorydd, neu gynghorydd, neu drwy ryw gymhwyster arall, pa un a oes a wnelo buddiannau o'r fath ag aelodaeth o'r Cynulliad ai peidio. Nid yw chwaith yn atal Aelod rhag cael ei noddi gan undeb llafur neu unrhyw gorff arall, na rhag dal unrhyw fuddiant arall cofrestradwy, na rhag derbyn lletygarwch fel rhan o'i ddyletswyddau ef neu ei dyletswyddau hi ar ran y Cynulliad boed hynny yn y Deyrnas Unedig neu dramor. Nid yw chwaith yn atal unrhyw Aelod rhag bod yn gynghorydd sy'n derbyn tâl ar faterion y Cynulliad, na rhag derbyn unrhyw fath o dâl gan unrhyw gorff allanol.

3.3 Fodd bynnag, ym mhob achos rhwystrir yr Aelod gan y RhS rhag gweithredu mewn unrhyw ffordd y cyfeirir ati yn RhS 2.6 mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad neu ei bwyllgorau.

Ymwneud ag Aelodau eraill

3.4 Ni chaniateir i Aelodau, am dâl neu elw fel a ddisgrifir uchod, annog unrhyw Aelod arall i eiriol na chychwyn unrhyw achos na mater yn nhrafodion y Cynulliad.

3.5 Megis gyda'r rheolau sefydlog sy'n ymdrin â chofrestru a datgan buddiannau, mae'r prif gyfrifoldeb am gadw at y rheol yn erbyn lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth yn gorffwys gyda'r Aelod unigol.

## ADRAN 4: CYFYNGIADAU PLEIDLEISIO – RhS 2.9

4.1 O dan reol sefydlog 2.9, lle bo gan Aelod fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru neu ei ddatgan o dan RhS 2 ni chaniateir i'r Aelod bleidleisio pe gallai'r penderfyniad mewn perthynas â'r buddiant hwnnw arwain at fantais **ariannol uniongyrchol** i'r Aelod sydd yn **fwy** na'r fantais a ddeuai i ran personau yr effeithir arnynt gan y penderfyniad yn gyffredinol. Fel arall, caiff Aelodau bleidleisio yn nhrafodion y Cynulliad. Megis gyda'r gofyniad i gofrestru a datgan buddiannau, mae methiant i gydymffurfio â rheol sefydlog 2.9 ar y mater hwn yn drosedd o dan Adran 36(7)(a) Deddf Llywodraeth Cymru.

4.2 Nid oes ateb clir ar gyfer pob sefyllfa. Gall fod yn anodd iawn i Aelod fod yn glir, wrth bleidleisio, pwy yw'r personau yr effeithir arnynt neu y gellid effeithio arnynt gan y penderfyniad yn gyffredinol ac a allai'r Aelod hwnnw elwa'n uniongyrchol yn ariannol yn fwy na phersonau o'r fath yn gyffredinol.

4.3 Mae dau gwestiwn i'w hystyried:

- *Y cyntaf* yw a yw'r mater neilltuol y pleidleisir arno yn y Cynulliad neu mewn Pwyllgor yn cynnwys penderfyniad a allai effeithio ar fuddiant y mae gofyn ei gofrestru neu ei ddatgan o dan yr Atodiad at y Rheol Sefydlog. Yn gyffredinol (ond nid yn gyfan gwbl), buddiannau ariannol yw'r buddiannau hynny. Ni fyddai pob mater y pleidleisid arno gan Bwyllgor, neu gan y Cynulliad, yn golygu canlyniad o'r fath. Er enghraifft, gallai argymhelliad i Ysgrifennydd Cynulliad neu i'r Cynulliad gan Aelod sy'n ffermwr o blaid gweithredu mewn modd neilltuol (e.e. mabwysiadu cynllun i gynorthwyo amaethyddiaeth) gael ei ystyried yn rhywbeth sydd â gogwydd o leiaf tuag at fuddiant ariannol uniongyrchol. Ni fyddai mynegi barn yn gyffredinol am faterion amaethyddol yn cael ei ystyried felly.

- *Yr ail* gwestiwn yw a fyddai penderfyniad "yn debygol o arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod sy'n fwy na'r fantais a ddeuai i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol". Dyma agwedd anoddaf y ddarpariaeth. Yr hyn sy'n anodd yw penderfynu pwy yw'r "personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol" a allai gael mantais ariannol o'r mater. Er enghraifft, mewn perthynas â mater ffermio, pe bai hynny'n golygu "poblogaeth Cymru" ni allai unrhyw ffermwr bleidleisio ar fater sy'n effeithio ar incwm ffermwyr. Mae'n annhebygol felly mai dyma fwriad y rheol sefydlog. Mae'n fwy tebygol o olygu unrhyw bersonau neilltuol yr effeithir arnynt gan benderfyniad neilltuol. E.e. ffermwyr mewn ardal lle mae cynllun grantiau amaeth-amgylcheddol yn cael ei awgrymu. Ar ôl canfod pwy yw'r personau y cwestiwn wedyn yw a allai'r Aelod gael mwy o fantais ariannol uniongyrchol na'r personau hynny yn gyffredinol. Er enghraifft, gan fod buddiant cofrestradwy Aelod yn cyflawni rhai amodau grant yn arbennig o dda, gallai Aelod sy'n ffermwr fod mewn sefyllfa neilltuol i elwa mwy o gynllun grantiau lleol arfaethedig na ffermwyr eraill yn yr ardal honno; gallai hynny rwystro'r aelod rhag pleidleisio mewn perthynas â'r cynllun hwnnw.

4.4 Mae'r Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros y materion a restrir yn RhS 22 wedi cymeradwyo'r cyngor a ganlyn: Ni ddylech bleidleisio os gallai'r penderfyniad arwain at fantais ariannol uniongyrchol i chi sy'n "fwy na'r fantais a ddeuai i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol". Mae hyn yn golygu:

a) Y gallwch bleidleisio felly os ydych yn fodlon mai buddiant anuniongyrchol yn unig fyddai eich buddiant chi; fel a fyddai'n wir os mai aelod o'ch teulu fyddai'r unig fuddiolwr uniongyrchol.

b) Hyd yn oed pe baech yn fuddiolwr uniongyrchol, gallech bleidleisio oni bai y gallai mwy o fudd ddod i chi nag i'r bobl yr effeithir arnynt yn gyffredinol.

4.5 Mae’r pwynt olaf hwn yn anodd i’w ddehongli’n union ac fel yr eglurwyd uchod yr unig gyngor diogel i Aelod o reidrwydd yw **“os ydych yn ansicr, peidiwch â phleidleisio”**.

## ADRAN 5: CYTUNDEBAU AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU - RhS 2.12

5.1 Rhaid i unrhyw Aelod sydd wedi gwneud cytundeb, neu sy'n bwriadu gwneud cytundeb, sy'n golygu darparu gwasanaethau yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod o'r Cynulliad sicrhau bod y cytundeb

- yn peidio â mynd yn groes i baragraff 2.8 (gwahardd lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth)
- yn ysgrifenedig
- yn nodi natur y gwasanaethau sydd i’w darparu
- yn pennu’r tâl neu’r fantais y mae’r Aelod i’w derbyn.

5.2 Mae gofyn i’r Aelod roi copi o’r cytundeb i’r Llywydd cyn pen 4 wythnos. Bydd cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau yn agored i’w harchwilio gan Aelodau’r Cynulliad a chan y cyhoedd. Ni chaiff cytundebau eu cyhoeddi na’u rhoi ar wefan y Cynulliad ond byddant yn agored i’w harchwilio gan Aelodau’r Cynulliad a’r cyhoedd drwy wneud cais.

5.3 Mae’r gofyniad i gytundebau fod yn ysgrifenedig ac iddynt gael eu rhoi i’r Llywydd yn berthnasol i unrhyw drefniant lle gall Aelod gynnig cyngor ynghylch materion y Cynulliad. Er enghraifft, byddai’n rhaid i ymrwymiad parhaus am dâl i ysgrifennu colofn mewn papur newydd neu gymryd rhan mewn rhaglen radio neu deledu am faterion yn ymwneud â’r Cynulliad fod yn destun cytundeb ysgrifenedig. Nid yw’r RhS yn mynnu bod yn rhaid i ymrwymiad o’r fath fod ar ffurf cytundeb ysgrifenedig os nad oes a wnelo ei destun â materion y Cynulliad o gwbl. Efallai na fydd angen i alwadau achlysurol lle nad oes ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaeth, megis cyfweliadau materion cyfoes neu newyddion arbennig neu ymddangosiad ysbeidiol ar banel, fod yn destun cytundeb ysgrifenedig ond byddai angen cofrestru unrhyw dâl a dderbynnir am alwadau o’r fath o dan gategori 2.

5.4 Efallai na fydd bob amser yn amlwg ar unwaith a yw cytundeb neilltuol i ddarparu gwasanaethau yn deillio o, neu’n ymwneud ag, aelodaeth o’r Cynulliad. Bydd yna achosion y mae’n anodd eu categoreiddio. Efallai fod rhai Aelodau, er enghraifft, yn rhoi cyngor ar faterion y Cynulliad yn achlysurol fel rhan o gytundeb cyflogi llawer ehangach sy’n ymdrin â materion nad oes a wnelont o gwbl â’r Cynulliad. O dan yr amgylchiadau hyn, mater i Aelod unigol yn y lle cyntaf yw penderfynu a fyddai gofyniad RhS 2.12 yn cael ei gyflawni drwy ynysu’r gwasanaethau Cynulliad o fewn cytundeb ar wahân, y gellid ei roi i’r Llywydd. Wrth ddod i’r penderfyniad hwnnw efallai y bydd yr Aelod am ymgynghori â’r Llywydd, y Clerc, neu aelod o’i Swyddfa, ond erys y mater yn un i’r Aelod benderfynu arno i ddechrau.

## ADRAN 6: METHIANT I GYDYMFFURFIO A’R DREFN GWYNO

6.1 Mae’r cyfrifoldeb am sicrhau bod gofynion rheolau sefydlog 2 a 5 a phenderfyniadau’r Cynulliad ar fuddiannau yn cael eu rhoi ar waith yn gorffwys i

ddechrau gydag Aelodau'r Cynulliad. Priodol felly yw i'r canllawiau hyn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gorfodi a chosbi mewn achosion o beidio â chydymffurfio.

**Peidio â chydymffurfio**

6.2 Mae Adran 36(7) Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd i Aelod gymryd rhan mewn unrhyw drafodion heb fod wedi cydymffurfio â'r rheolau sefydlog ar:

- gofrestru buddiannau
- datgan buddiannau (rhai cyfredol nid buddiannau i'r dyfodol – gweler paragraff 2.3)
- pleidleisio mewn trafodion
- lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth.

6.3 Mae Aelod sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol. Ni all erlyniad ar sail peidio â chydymffurfio â'r rheolau sefydlog gael ei gychwyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ei hun, neu gyda'i ganiatâd.

6.4 Mae protocol ar gyfer delio â chwynion am weithredu'n groes i adran 36(7) y Ddeddf wedi'i gytuno gyda Heddlu De Cymru a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae copi o'r protocol neu wybodaeth am ei gynnwys ar gael o Swyddfa'r Llywydd.

**<u>Y Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a restrir yn Rheol Sefydlog 22 – "y Pwyllgor sy'n gyfrifol"</u>**

6.5 Mae rheol sefydlog 22 yn nodi rôl y Pwyllgor sy'n gyfrifol mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y canllawiau hyn. Ei rôl bennaf yw ymchwilio i, adrodd ar ac, os yw hynny'n briodol, argymell gweithredu yng nghyswllt unrhyw gwyn y cyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod heb gydymffurfio â'r rheolau sefydlog. Yn sgil cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r rheolau sefydlog, gall y Cynulliad benderfynu gwahardd Aelod am gyfnod penodedig neu ei geryddu.

6.6 Yn ystod y cyfnod tra bo'r Aelod wedi ei wahardd nid oes hawl gan yr Aelod i dderbyn unrhyw gyflog gan y Cynulliad ac nid oes hawl ganddo neu ganddi i fynychu'r Cynulliad nac unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau.

6.7 Mae'r sancsiynau uchod yn ychwanegol at y posibilrwydd o erlyniad o dan adran 36(7) Deddf Llywodraeth Cymru.

**Trefn Gwyno'r Cynulliad**

6.8 Wedi i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 gael Cymeradwyaeth Frenhinol, penodwyd Comisiynydd Safonau gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2010. Un rhan o gylch gwaith y Comisiynydd yw ymchwilio i unrhyw gwyn yn erbyn Aelod Cynulliad. Dylid cyfeirio cwynion, boed y rheini gan Aelodau'r Cynulliad neu aelodau o'r cyhoedd, at y Comisiynydd Safonau ar ffurf ysgrifenedig.

6.9 Nid yw cydnabyddiaeth bod cwyn wedi'i derbyn gan y Comisiynydd Safonau i'w dehongli fel arwydd bod yna achos i ymchwilio iddo. Mae copi o drefn gwyno'r Cynulliad ar gael oddi wrth swyddfa'r Comisiynydd.

# ATODIAD A

## Categorïau y mae'n Ofyniad Statudol i'w Cofrestru a'u Datgan

Yn unol â'r Atodiad at reol sefydlog 2 mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru eu buddiannau yn y categorïau isod a'u datgan cyn siarad mewn trafodion y maent yn berthnasol iddynt. Cyn ystyried y manylion, dylai'r Aelodau nodi dau ofyniad cyffredinol a nodwyd yn yr atodiad at y rheolau sefydlog:

1) Caiff gweithgaredd am dâl ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus, a chyngor ac ymgynghoriaeth gwleidyddol yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad eu cynnwys yng Nghategori 2.

2) Mae mwyafrif y buddiannau a restrir yn y Categorïau isod yn cynnwys cyfeiriad at eiddo a ddeil y partner neu unrhyw rai o blant dibynnol yr Aelod yn annibynnol arnynt neu a roddwyd iddynt, a rhaid eu cofrestru hefyd os yw'r Aelod yn gwybod amdanynt.

Ystyr partner Aelod yw 'priod iddo ef neu iddi hi neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod'.

Ystyr plentyn dibynnol yw unrhyw berson sydd, pan gofnodir y buddiant, yn iau nag un ar bymtheg mlwydd oed neu yn iau na phedair ar bymtheg mlwydd oed ac sy'n derbyn addysg llawn amser drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig ac:-

(a) sy'n blentyn i'r Aelod; neu
(b) sy'n lys-blentyn i'r Aelod drwy briodas; neu
(c) sy'n blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol gan yr Aelod; neu
(ch) sy'n blentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu yn gyfreithiol; neu
(d) sy'n blentyn y bu'r Aelod yn ei gefnogi yn ariannol am o leiaf y 6 mis calendr blaenorol

**Categori 1:** ***Swyddi Cyfarwyddwyr:***

Swyddi cyfarwyddwyr a ddelir gan yr Aelod neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr nad ydynt yn cael tâl amdanynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp.

Yn y Categori hwn, ac mewn categorïau eraill perthnasol, cynghorir Aelodau i gynnwys fel "tâl" nid yn unig gyflogau a ffïoedd, ond hefyd unrhyw dreuliau, lwfansau a buddion trethadwy a dderbynnir, megis darparu car cwmni. Dylai Aelod ddatgan enw'r cwmni y mae'n dal swydd cyfarwyddwr ynddo a rhoi disgrifiad bras o fusnes y cwmni, lle nad yw hynny'n amlwg o'i enw. Yn ychwanegol at unrhyw swyddi cyfarwyddwyr am dâl, mae gofyn hefyd i Aelodau gofrestru/datgan unrhyw swyddi cyfarwyddwyr y maent yn eu dal ac sydd eu hunain heb dâl ond lle mae'r cwmnïau dan sylw yn gysylltiedig â, neu'n is-gwmnïau o, gwmni y mae ganddo ef neu ganddi hi swydd cyfarwyddwr am dâl ynddo.

Mae'r buddiannau sydd wedi'u cofrestru o dan Gategori 1 yn cael eu hystyried yn 'weithgarwch cofrestradwy'. Felly, dylai Aelodau ddatgan y buddiannau hyn hefyd o dan Reol Sefydlog 4. Dylid datgan y buddiannau o dan Reol Sefydlog 4 ar yr un pryd a chofrestru'r buddiannau o dan Gategori 1.

**Categori 2:** ***Cyflogaeth, Swydd, Proffesiwn, ayb Am Dâl***

Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu hyd y gŵyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed unrhyw fuddiant ariannol ynddynt.

Yn y categori hwn dylid rhoi manylion unrhyw gyflogaeth y tu allan i'r Cynulliad ac unrhyw ffynonellau tâl nad ydynt yn disgyn yn glir o fewn unrhyw gategori arall. O ran cyflogaeth, dylai Aelodau ddatgan y cyflogwr neu'r cwmni, natur y busnes, a nodi natur y swydd sy'n cael ei dal yn y cwmni neu'r gwasanaethau y mae'r cwmni yn talu iddynt amdanynt. Dylai Aelodau sydd â swyddi gyda thâl fel ymgynghorwyr neu gynghorwyr nodi natur yr ymgynghoriaeth, er enghraifft "ymgynghorydd rheoli", "cynghorydd cyfreithiol", "ymgynghorydd seneddol a materion cyhoeddus".

Rhaid cynnwys unrhyw weithgaredd am dâl ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus a chyngor ac ymgynghoriaeth gwleidyddol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad yn y categori hwn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgaredd am dâl sy'n gysylltiedig ag unrhyw drafodion yn y Cynulliad, pwyllgor neu is-bwyllgor, noddi digwyddiadau yn adeiladau'r Cynulliad a chyflwyno sylwadau i Gabinet y Cynulliad neu unrhyw rai o'i aelodau. Dylai Aelodau'r Cynulliad gymryd gofal i sicrhau nad yw unrhyw weithgaredd o'r fath am dâl yn dod o fewn y diffiniad o lobïo i sicrhau gwobr neu ystyriaeth.

Mae angen cofrestru manylion cytundebau sy'n golygu darparu gwasanaethau am dâl yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod o'r Cynulliad hefyd o dan y categori hwn.

Mae'r buddiannau sydd wedi'u cofrestru o dan Gategori 2 yn cael eu hystyried yn 'weithgarwch cofrestradwy'. Felly, dylai Aelodau ddatgan y buddiannau hyn hefyd o dan Reol Sefydlog 4. Dylid datgan y buddiannau o dan Reol Sefydlog 4 ar yr un pryd a chofrestru'r buddiannau o dan Gategori 1.

**Categori 3: Enwau Cleientiaid**

Enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Cynulliad, neu sydd wedi'u cysylltu â hynny mewn unrhyw fodd.

Mewn perthynas ag unrhyw gyflogaeth am dâl a gofrestrwyd/datganwyd yng nghategori 1 (Swyddi cyfarwyddwyr) a chategori 2 (Cyflogaeth, swydd, proffesiwn, ayb am dâl), dylai unrhyw wasanaethau a ddarperir sydd a wnelont â, neu sy'n deillio o, sefyllfa'r Aelod fel Aelod gael eu cofrestru o dan y categori hwn. Dylid rhestru enwau pob cleient gan gynnwys cwmnïau a phartneriaethau y darperir gwasanaethau iddynt gyda'i gilydd ynghyd â natur busnes y cleient ym mhob achos. Lle bo Aelod neu neu hyd y gŵyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, yn derbyn tâl gan gwmni neu bartneriaeth sy'n gweithio mewn busnes ymgynghoriaeth ac sydd â'i gleientiaid neu ei chleientiaid ei hun, dylai'r Aelod restru unrhyw rai o'r cleientiaid hynny y darperir gwasanaethau neu gyngor iddynt, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae'r mathau o wasanaethau y bwriedir eu cynnwys yma yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag unrhyw drafodion yn y Cynulliad, neu wasanaethau eraill sydd a wnelont ag aelodaeth. Os oes gan Aelod neu hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, gleientiaid drwy gymhwyster proffesiynol nad oes a wnelo â'r Cynulliad (er enghraifft fel meddyg, cyfreithiwr neu gyfrifydd) nid oes gofyn i'r Aelod gofrestru enwau'r cleientiaid hynny, cyhyd â'i bod yn glir y tu hwnt i unrhyw amheuaeth nad yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu darparu nac yn ymwneud mewn unrhyw fodd â swydd yr Aelod fel Aelod o'r Cynulliad.

O dan y categori hwn, os cyflogir Aelod neu hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod sydd dros 16 oed, fel cynghorydd Cynulliad gan ffyrm sydd ei hun yn ymgynghoriaeth ac sydd felly yn darparu cyngor a gwasanaethau o'r fath i'w chleientiaid, dylai'r Aelod ddadlennu'r rheini o blith cleientiaid yr ymgynghoriaeth y mae ganddo ef neu ganddi hi gyswllt uniongyrchol â hwy i'r diben o ddarparu cyngor neu wasanaethau sy'n ymwneud â'r Cynulliad neu sy'n elwa yn sgîl darparu cyngor neu wasanaethau o'r fath. Lle'r enwir cwmni neu bartneriaeth fel cleient, dylid nodi natur busnes y cwmni neu bartneriaeth.

**Categori 4: Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol**

Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a geir gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, gan gwmni, corff neu unigolyn mewn perthynas ag aelodaeth o'r Cynulliad neu'n deillio o hynny.

Penderfynodd y Cynulliad ar 10 Mai 2006 mai'r gwerthoedd ariannol penodedig y mae'n rhaid cofrestru/datgan rhoddion, lletygarwch ac unrhyw fuddion eraill uwchlaw iddynt yw 0.5 y cant o gyflog Cynulliad blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Cynulliad:

Ar wahân i roddion a lletygarwch, gallai buddion materol neu fantais faterol gynnwys rhyddhau rhag dyled, benthyciadau gostyngol, darparu gwasanaethau, ayb.

Dylid cofrestru/datgan unrhyw rodd, neu fuddiant, sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag aelodaeth o'r Cynulliad ac a roddir am ddim, neu am gost is nag sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd fel arfer, pa bryd bynnag y mae gwerth y rhodd neu'r buddiant yn fwy na'r swm a bennir uchod. Dylid cofrestru hefyd unrhyw rodd neu fuddiant cyffelyb a dderbynnir gan unrhyw gwmni neu gorff y mae gan yr Aelod, neu hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, fuddiant rheolaethol ynddo.

Mae rhoddion a buddion materol yn y categori hwn (a chategorïau eraill) wedi'u heithrio rhag yr angen i gofrestru/datgan os nad ydynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag aelodaeth o'r Cynulliad. O ganlyniad nid oes angen cofrestru/datgan rhoddion a dderbynnir gan Aelod ar ran y Cynulliad cyfan cyhyd â'u bod yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad ac y cedwir cofnod o berchnogaeth y Cynulliad o'r rhodd. Mater i'r Aelod unigol yw penderfynu yn y lle cyntaf a yw'r eithriad hwn yn berthnasol mewn unrhyw achos penodol. Os oes unrhyw ansicrwydd dylid cofrestru'r rhodd.

**Categori 5:** ***Contractau gyda'r Cynulliad***

Unrhyw dâl neu fudd materol y mae'r Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract.

Dylai Aelodau gofrestru/datgan ffynhonnell pob tâl neu fudd materol a dderbynnir gan unrhyw gwmni neu gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontractau gyda'r Cynulliad. Mater i'r Aelod yw penderfynu beth sydd yn fudd materol, ond yn amlwg byddai angen i unrhyw roddion neu letygarwch nad ydynt yn gofrestradwy o dan gategori 4 uchod ond a roddir gan gwmni sydd â chysylltiadau contractyddol â'r Cynulliad gael ei nodi yn y categori hwn.

**Categori 6:** ***Nawdd ariannol:***

Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd ar gyfer ethol i'r Cynulliad, lle, hyd y gŵyr yr Aelod, mae'r nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (ii) fel Aelod o'r Cynulliad gan unrhyw unigolyn neu gorff, gan ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw dâl i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol.

Mae'r categori hwn yn delio â nawdd gan gwmnïau, undebau llafur, cyrff proffesiynol, cymdeithasau masnach a chyrff eraill. O dan y categori hwn a pharagraff 1 o bennawd cyffredinol yr Atodiad at y rheolau sefydlog, mae gofyn i'r Aelod gofrestru/datgan ffynhonnell unrhyw gyfraniad tuag at ei gostau etholiad ef neu ei chostau etholiad hi sydd yn fwy na 25 y cant o gyfanswm y costau hynny. Yn achos Aelod a etholwyd o blith grŵp o ymgeiswyr ar restr plaid, mae'r trothwy o 25 y cant yn cyfeirio at y costau etholiad a achoswyd gan neu ar ran y gr^wp hwnnw o ymgeiswyr ar restr plaid fel y'u cynhwysir yn y datganiad am gostau etholiad sy'n ofynnol o dan erthygl 55 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999. (Cyflwynir y datganiad gan swyddog enwebu cofrestredig pob plaid sydd wedi cyflwyno rhestr ar gyfer o leiaf un rhanbarth etholiadol yn etholiad y Cynulliad ac er bod y datganiad yn ymwneud â chostau'r blaid dros yr etholiadau yn eu cyfanrwydd mae'n rhaid rhoi dadansoddiad unigol mewn perthynas â phob asiant etholiadol ar ran pob grwp o ymgeiswyr ar restr plaid.)

Yn unol â rheol sefydlog 2.4, dylai Aelodau rhanbarth ddiweddaru'r Gofrestr mewn perthynas â Chategori 6 cyn pen 4 wythnos i'r datganiad gael ei gyflwyno. Mae is-adran (ii) o'r categori hwn yn ymdrin â mathau eraill o nawdd ariannol. Bwriedir i hyn gynnwys unrhyw gefnogaeth reolaidd neu barhaus oddi wrth bersonau gan gynnwys cwmnïau neu gyrff y mae'r Aelod yn derbyn unrhyw fudd ariannol neu faterol oddi wrthynt i'w gynorthwyo/i'w chynorthwyo gyda'i rôl fel Aelod o'r Cynulliad.

Os mai cwmni yw'r noddwr dylid nodi natur ei fusnes. Dylai Aelodau gofrestru unrhyw drefniant nawdd ariannol y mae ganddynt hwy yn bersonol ran ynddo, pa un a ydynt yn derbyn tâl personol ai peidio.

Lle darperir gwasanaeth cynorthwy-ydd ymchwil neu ysgrifenyddes gyda'r cyflog yn cael ei dalu, yn llwyr neu yn rhannol, gan gorff allanol, a lle darperir llety am ddim neu gyda nawdd at ddefnydd yr Aelod, ar wahân i lety a ddarperir yn gyfan gwbl gan gangen y blaid yn yr etholaeth, dylid cofrestru hynny, fel sy'n briodol, un ai yn yr adran hon neu o dan gategori 4 "Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol". Penderfynodd y Cynulliad ar 19 Mai 1999 bod llety a ddarperir gan awdurdod lleol neu gorff arall heb unrhyw gost, neu am gost noddedig, i Aelod yn unswydd i'r pwrpas o gynnal cymorthfeydd etholaeth wedi ei eithrio rhag yr angen i gofrestru.

Dylai Aelodau hefyd gofrestru a datgan unrhyw roddion sylweddol a roddir gan gorff neu gwmni ar sail reolaidd i gangen eu plaid yn yr etholaeth lle bo cyswllt uniongyrchol rhwng rhoddion o'r fath â'u hymgeisyddiaeth neu eu haelodaeth hwy o'r Cynulliad. Penderfynodd y Cynulliad ar 19 Mai 1999 fod "rhoddion i gael eu hystyried yn nawdd ariannol os oes perthynas uniongyrchol rhwng rhoddion o'r fath mewn unrhyw flwyddyn ag ymgeisyddiaeth y person i gael ei ethol i, neu aelodaeth y person o, y Cynulliad a'u bod yn werth o leiaf £500 (ac mae'r cyfeiriadau uchod at roddion yn cynnwys rhodd unigol)." Fodd bynnag, nid yw rhoddion a roddir yn uniongyrchol i gangen plaid mewn etholaeth fel mynegiant o gefnogaeth wleidyddol

gyffredinol, nad ydynt yn gysylltiedig ag ymgeisyddiaeth yr Aelod neu ei (h)aelodaeth o'r Cynulliad, yn dod oddi mewn i benderfyniad y Cynulliad.

Yn yr un modd nid oes raid cofrestru rhodd gan undeb llafur i gangen plaid mewn etholaeth lle nad yw'n gysylltiedig â hyrwyddo ymgeisydd penodol am sedd yn y Cynulliad neu Aelod penodol.

Fodd bynnag, dylid ystyried bod cefnogaeth ariannol i Aelod gan undeb llafur yn dod oddi mewn i baragraff 6 a dylid ei chofrestru (ar yr amod wrth gwrs ei bod yn fwy na 25% o'r costau etholiad) hyd yn oed lle bo'r undeb llafur ynghlwm wrth y blaid wleidyddol dan sylw.

**Categori 7: Ymweliadau tramor**

***Ymweliadau tramor:*** Gyda'r eithriadau a bennir mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cynulliad, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, mewn perthynas ag aelodaeth o'r Cynulliad neu'n deillio o hynny pan na fydd cost yr ymweliad wedi'i thalu'n llwyr gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, neu ag arian cyhoeddus y Cynulliad.[1]

Dylai'r Aelod roi dyddiad, cyrchfan a diben yr ymweliad, ac enw'r llywodraeth, corff, cwmni neu unigolyn a dalodd y gost. Lle'r ysgwyddwyd rhan yn unig o'r gost gan ffynhonnell allanol (er enghraifft, cost llety ond nid y costau teithio), dylid nodi'r manylion hynny yn fyr. Lle trefnwyd ymweliad tramor gan grwp Cynulliad o'r holl bleidiau ond na thalwyd amdano gan y Cynulliad na chan grwp plaid, nid yw'n ddigonol enwi'r grwp fel noddwr yr ymweliad: dylid enwi'r Llywodraeth, corff, cwmni neu berson a dalai'r gost yn y pen draw.

Penderfynodd y Cynulliad ar 19[eg] Mai 1999 nad oes angen cofrestru'r categorïau isod o ymweliadau ond y dylid eu datgan pan fônt yn berthnasol yn nhrafodion y Cynulliad.

(i) Ymweliadau y telir amdanynt gan, neu yr ymgymerir â hwy ar ran y Cynulliad neu a wneir ar ran corff rhyngwladol y perthyn y Cynulliad iddo;
(ii) Ymweliadau tramor gyda, neu ar ran, un o Bwyllgorau'r Cynulliad;
(iii) Ymweliadau a drefnir gan ac y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan blaid wleidyddol yr Aelod ei hun;
(iv) Ymweliadau y telir amdanynt yn gyfan gwbl gan un o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd neu gan un o grwpiau gwleidyddol Senedd Ewrop.

Mae ymweliadau nad oes cysylltiad o gwbl rhyngddynt ag aelodaeth o'r Cynulliad hefyd wedi'u heithrio rhag yr angen i gofrestru ond dylid cofrestru ymweliadau sy'n cyfuno dyletswyddau cyhoeddus gyda dibenion preifat onid ymgymerir â'r dyletswyddau cyhoeddus yn ystod ymweliadau y darperir ar eu cyfer drwy unrhyw un o gymalau (i) i (iv) uchod neu oni bai bo'r Aelod neu bartner yr Aelod neu blant dibynnol yr Aelod yn talu'r gost yn llawn.

[1] Mae 'arian cyhoeddus y Cynulliad' yn cyfeirio at gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru neu arian Comisiwn y Cynulliad.

**Categori 8: Tir ac Eiddo**

Unrhyw dir neu eiddo sydd gan yr Aelod, neu hyd y gwyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i pennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol drwyddo, heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel preswylfan bersonol gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.

Dylai cofnodion fod yn weddol benodol ynglyn â natur yr eiddo a'r lleoliad cyffredinol, er enghraifft:

"Coetir ym Meirionydd"
"Fferm laeth ym Mro Morgannwg"
"3 eiddo preswyl ar rent yn Llandudno".

Penderfynodd y Cynulliad ar 19$^{eg}$ Mai 1999 fod "gwerth sylweddol" yn golygu swm sy'n cyfateb i gyflog blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Cynulliad a bod "incwm sylweddol" yn golygu swm sy'n cyfateb i 10 y cant o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Cynulliad.

Nid oes diffiniad cwbl eglur yn bodoli o eiddo "a ddefnyddir fel preswylfan bersonol". Mater i'r Aelodau eu hunain fydd barnu a yw eiddo wedi'i eithrio rhag ei gofrestru am y rheswm hwn ai peidio. Mae nifer o ffactorau y dylai'r Aelodau eu hystyried, a fydd o gymorth iddynt wrth benderfynu a oes yn rhaid cofrestru eiddo ai peidio – maent wedi'u rhestru isod. Dylid pwysleisio nad yw'r ffactorau a restrir yn gynhwysfawr na phenodol, ac y gallai ffactorau eraill fod yn bwysig o dan rai amgylchiadau:

- A geir incwm sylweddol drwy'r eiddo. Fel rheol, nid yw eiddo y bydd yr Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod yn cael incwm drwyddo (yn enwedig os ydyw'n incwm sylweddol yn ôl y diffiniad uchod) yn un sy'n debygol o'i weld fel un a ddefnyddir fel "preswylfan bersonol".

- A yw'r eiddo yn cael ei ddefnyddio gan yr Aelod, gan bartner yr Aelod, plant yr Aelod neu deulu agos yn unig.

- A yw'r dreth gyngor neu'r biliau am wasanaethau ar gyfer yr eiddo yn cael eu talu gan yr Aelod neu bartner yr Aelod neu blant dibynnol.

- A ddylid cofrestru eiddo, megis fferm, sy'n cael ei ddefnyddio fel preswylfan gan yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blant dibynnol i'r Aelod, os oes ganddo werth sylweddol ar wahân i'w ddefnydd fel preswylfan.

Mae'n bosibl i Aelod neu bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, gael mwy nag un cartref "a ddefnyddir fel preswylfan bersonol yr Aelod neu bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod". Nid oes raid cofrestru eiddo o'r fath.

**Categori 9 : *Cyfranddaliadau***

Enwau cwmnïau neu gyrff eraill yn y rhai y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben neu ar ei phen ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant buddiol, neu yn y rhai neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant buddiol, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad.

Penderfynodd y Cynulliad ar 10 Mai 2006 fod "yn rhaid cofrestru yng nghyswllt cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn llai nag 1% o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd lle bo gwerth y cyfranddaliadau hynny yn fwy na 50 y cant o gyflog Cynulliad blynyddol crynswth sylfaenol Aelod o'r Cynulliad" ar 5 Ebrill blaenorol.

Mae gwerth y cyfranddaliadau yn cael ei bennu gan bris y cyfranddaliad ar y farchnad ar:

(i) dyddiad ethol yr Aelod i'r Cynulliad, neu ddyddiad prynu'r cyfranddaliad os yw ar ôl y dyddiad hwnnw; neu
(ii) ar ôl y dyddiad ethol neu'r dyddiad prynu, ei werth ar 5 Ebrill bob blwyddyn.

Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i'r Aelodau wneud asesiad blynyddol o'u cyfranddaliadau, a chofrestru unrhyw gyfranddaliad sydd â'i werth yn uwch na'r trothwy ar 5 Ebrill, er efallai y bu ei werth yn is na'r trothwy yn flaenorol. Mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru cyfranddaliadau cyn pen 8 wythnos i'w hethol i'r Cynulliad, neu cyn pen 4 wythnos i brynu'r cyfranddaliadau, neu ar 5 Ebrill bob blwyddyn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Gall Aelodau hefyd nodi bod gwerth y cyfranddaliad ar 5 Ebrill wedi disgyn yn is na'r trothwy. O dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd yn rhaid i'r Aelod ddatgan y cyfranddaliadau yn nhrafodion perthnasol y Cynulliad.

Os na ellir canfod y pris ar y farchnad (ee oherwydd nad yw'r cwmni wedi'i restru ac nad yw'r cyfranddaliadau ar y farchnad), dylid defnyddio'r gwerth mewn enw. Mae buddiant mewn cyfranddaliadau yn cynnwys cyfranddaliadau opsiwn.

Wrth benderfynu a yw cyfranddaliadau yn gofrestradwy/datganadwy o dan y meini prawf a nodir uchod, dylai Aelodau gynnwys nid yn unig ddaliadau y mae ganddynt hwy eu hunain fuddiant buddiol ynddynt ond hefyd y rheini lle mae'r buddiant yn cael ei ddal ar y cyd â, neu ar ran, eu priod neu blant dibynnol. Ar gyfer pob cyfranddaliad, dylai'r cofnod ddatgan enw'r cwmni neu'r corff, nodi'n fyr natur ei fusnes a'i gwneud yn glir pa un neu rai o'r meini prawf cofrestru sydd yn gymwys.

**Categori 10: Cyrff Cyhoeddus**

Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu hyd y gwyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol gan y Cynulliad.[2]

Mae gan y Cynulliad bwerau ariannu helaeth mewn perthynas â chyrff cyhoeddus a dylid cofrestru unrhyw gysylltiad ffurfiol sydd gan Aelod gyda chyrff o'r fath fel aelod neu gadeirydd. Lle bo gan Aelod o'r Cynulliad, neu hyd y gwyr yr Aelod, bartner yr Aelod neu blentyn dibynnol yr Aelod, gysylltiad fel aelod neu gadeirydd â chorff gwirfoddol neu gorff arall sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad, dylid cofrestru/datgan hynny. Dylid ceisio cyngor y Llywydd, y Clerc neu aelodau o'i Swyddfa, i ganfod a yw corff yn cael ei gyllido'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan y Cynulliad.

[2] Mae 'corff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol gan y Cynulliad' yn cyfeirio at unrhyw gorff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gan Gomisiwn y Cynulliad.

## Atodiad B

## COFRESTRU AELODAETH O GYMDEITHASAU YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 5

**Enghreifftiau o'r math o gyrff nad oes gofyn eu cofrestru**

1. Cyrff Cyhoeddus

*(Er enghraifft – CADW, English Heritage, Historic Scotland)*

2. Cymdeithasau preifat sy'n codi tâl aelodaeth yn unig

*(Er enghraifft - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RAC, AA, RSPB)*

3. Cymdeithasau preifat a chanddynt delerau ac amodau ar aelodaeth

*(Er enghraifft – Prifysgolion neu Golegau Addysg Uwch/Bellach, Cymdeithasau Rhieni/Athrawon, Cyrff Crefyddol, Cyrff Proffesiynol e.e. Cymdeithas y Cyfreithwyr)*

4. Cymdeithasau preifat sy'n codi tâl aelodaeth ac/neu'n gosod telerau ac amodau ar aelodaeth

*(Er enghraifft – Clybiau Hamdden neu Glybiau Gweithwyr, **cyhyd â nad oes unrhyw elfen o'r aelodaeth yn dibynnu ar wahoddiad neu ddetholiad yn unig**)*

**Enghreifftiau o'r math o gyrff y mae gofyn eu cofrestru**

1. **Cymdeithasau** preifat â gofynion aelodaeth yn ychwanegol at, neu yn lle, tâl aelodaeth a thelerau ac amodau ar aelodaeth

*(Er enghraifft – y Seiri Rhyddion, Rotary, Round Table – **yn arbennig os yw Aelodaeth yn ddibynnol ar wahoddiad neu ddetholiad yn unig**)*

2. **Clybiau** preifat â gofynion aelodaeth yn ychwanegol at, neu yn lle, tâl aelodaeth a thelerau ac amodau ar aelodaeth

*(Er enghraifft – Clybiau preifat i aelodau'n unig (e.e. Cardiff and County Club - **yn arbennig os yw Aelodaeth yn ddibynnol ar wahoddiad neu ddetholiad yn unig**)*